

Minutes of the **Planning & Amenities Committee** Meeting held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd on **Monday 16th July 2018** at 6.30pm.

PRESENT :- His Worship the Mayor, Councillor J Wynn Jones

Councillors:- Gwynant Roberts (Chairman)

Owen Hurcum

Luke Tugwell

Les Day

Ifan James

Elin Walker Jones

Dylan Fearnley

C King

Huw Wyn Jones

D Hainge

J M Martin

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk

61/18 APOLOGIES FOR ABSENCE

Councillors Keith Jones, Enid Parry, Medwyn Hughes, Gareth Roberts, and Mair Rowlands.

62/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

63/18 URGENT BUSINESS

The Town Clerk informed Members that a request had been made by at least ten electors in the Deiniol Ward for an election to be held. If the election was contested it would take place on Thursday 16 August 2018.

He also updated Members on the arrangements being made for the One Hundred Year Celebration of the RAF and Freedom Parade which would take place in the City on Saturday 8 September.

The Town Clerk read out a request from the Saudi Club based in Bangor for permission to address the Council.

RESOLVED: that the request be acceded to.

64/18 BANGOR IMAGE UPDATE

Councillor John Wynn Jones thanked Members who attended the Mayor's Civic Service on Sunday July 15th.

He reported the outcome of the Bangor Image Group Meeting held on 9 July 2018. The Group was made up of representatives of the main stakeholders in the City. It had already had some success i.e. the removal of hundreds of "To Let" boards and was seeking further improvements to the image of the City.

Areas currently being explored were improved and increased grass cutting and maintenance, the employment of an Environmental Warden which was to be jointly funded, raising awareness of waste issues and enforcement and the sponsorship of roundabouts.

The Town Clerk added that the City Council had taken over the maintenance of Garth Gardens from Gwynedd Council and he had received copies of the grass cutting maps for the City, but was awaiting costings for additional cuts.

RESOLVED: that the report be received and that the Bangor Image Group be supported by Members and it continue to pursue the environmental improvements in the City.

65/18 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED : that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below:-

C18/0541/11/LL Convert vacant shop to create 5 self-contained flats together with internal and external alterations to include a rear extension. 103-105 High Street. **No objections, however the City Council has concerns about waste disposal and collection and the Planning Officers should ensure there is an appropriate space available for bin storage.**

C18/0546/11/LL Change of use of basement and ground floor from vacant shop into a restaurant / cafe / bar including a sheltered outdoor seating area. 205-207 High Street. **No objection.**

C18/0616/11/LL Retrospective application for creation of parking area. Pretty Chic, Penchwintan Road, Bangor. **No objection.**

C18/0600/11/LL Change of use from shop (use class A1) into an office for non-material counselling services (use class D1) together with alterations to shop front window. 65 High Street, Bangor. **No objection.**

The Town Clerk was asked to obtain advice from the Monitoring Officer as to the amount of participation, comment and voting arrangements that were applicable to Members of the City Council who were also on Gwynedd's Planning Committee.

66/18 HIGHWAY MATTERS

None.

67/18 LICENSING MATTERS

None.

68/18 INFORMATION & DATA PROTECTION POLICY

The Town Clerk explained that as a result of the GDPR legislations a new policy was required with regard to information and data protection. This would align with other policies relating to personal data held and handled by the City Council. Recent changes to reflect the new legislation had been made to the website privacy notice and e-mail information on contact with the Council.

RESOLVED: that the Information and Data Protection Policy as presented be approved and adopted.

69/18 INVOICES FOR PAYMENT

Invoices as detailed on the schedule totalling £13,936.84 had been approved. **RESOLVED:** that the payments be noted.

The Town Clerk was asked to ascertain if all chemicals used by the City Council were safe and approved by the appropriate regulating bodies and in accordance with Health and Safety and Natural Resources Wales.

70/18 TO APPOINT AN EMERGENCY COMMITTEE FOR AUGUST

Emergency Committee – **RESOLVED:** that a Committee comprising of the Mayor, Deputy Mayor, the Chairmen and Vice Chairmen of the Planning and Amenities and the Finance and General Purposes Committees and the Senior Member of the Council be appointed to consider any emergency items which may arise during the August recess and to give that Emergency Committee Powers to Act on behalf of the Council on any such matter.

71/18 EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC

RESOLVED: That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of their business to be transacted.

FINANCIAL AND LEGAL POSITION OF THE COUNCIL AND PIER UPDATE

The Town Clerk reported details of confidential financial and legal matters which were currently ongoing. He also gave details of the latest tendering process in relation to the Pier contract the City Council was about to enter into and the satisfactory outcome that had ensued.

Members commented on the various matters outlined and considered the suggested courses of action.

RESOLVED: that the Town Clerk be instructed to move forward as discussed.

The meeting finished at 7.30pm.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd **Nos Lun 16 o Orffennaf 2018** am 6.30 y.h.

YN BRESENNOL:-	Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd J Wynn Jones Y Cyngorwyr:- Gwynant Roberts (Cadeirydd) Les Day Dylan Fearnley D Hainge	Owen Hurcum Ifan James C King J M Martin	Luke Tugwell Elin Walker Jones Huw Wyn Jones
-----------------------	---	---	--

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref

61/18 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Keith Jones, Enid Parry, Medwyn Hughes, Gareth Roberts, a Mair Rowlands.

62/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTIAD PERSONOL

Dim.

63/18 MATERION BRYS

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau fod cais wedi cael ei wneud gan o leiaf ddeg etholwr yn Ward Deiniol i etholiad gael ei gynnal. Pe bai ymladd am y sedd, byddai'r etholiad yn cael ei gynnal ddydd Iau 16 Awst 2018.

Rhoddodd y diweddaraf hefyd i'r Aelodau arm y trefniadau sy'n cael eu gwneud i Ddathlu Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol a'r Orymdaith Ryddid a fyddai'n digwydd yn y Ddinas, ddydd Sadwrn 8 Medi.

Darllenodd Clerc y Dref gais gan y Clwb Saudi sydd wedi'i leoli ym Mangor, am ganiatâd i annerch y Cyngor.

PENDERFYNWYD: caniatáu'r cais.

64/18 DELWEDD BANGOR – DIWEDDARIAD

Diolchodd y Cynghorydd John Wynn Jones i'r Aelodau a ddaeth i Wasanaeth Sul y Maer ddydd Sul 15 Gorffennaf.

Adroddodd ganlyniad Cyfarfod Grŵp Delwedd Bangor a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018. Roedd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif randdeiliaid yn y Ddinas. Roedd eisoes wedi cael rhywfaint o lwyddiant, h.y. cael gwared ar gannoedd o fyrrdau "Ar Osod" ac roedd yn gobeithio gwneud gwelliannau pellach i ddelwedd y Ddinas.

Y meysydd sydd dan sylw ar hyn o bryd yw torri a chynnal a chadw'r glaswellt yn well ac yn amlach, cyflogi Warden Amgylcheddol a fyddai'n cael ei gyllido ar y cyd, codi ymwybyddiaeth am faterion gwastraff a gorfodaeth a noddi cylchfannau.

Ychwanegodd Clerc y Dref fod Cyngor y Ddinas wedi cymryd drosodd cynnal a chadw Gerddi Garth gan Gyngor Gwynedd a'i fod wedi derbyn mapiau torri gwair i'r Ddinas, ond roedd yn disgwl prisau toriadau ychwanegol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac y byddai'r Aelodau'n cefnogi Grŵp Delwedd Bangor wrth iddo barhau i fynd ar ôl y gwelliannau amgylcheddol yn y Ddinas.

65/18 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD: Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod:-

C18/0541/11/LL Addasu siop wag i greu 5 fflat hunan-gynhaliol ynghyd â newidiadau mewnol ac allanol i gynnwys estyniad yn y cefn. 103-105 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad, fodd bynnag mae gan Gyngor y Ddinas bryderon am waredu a chasglu gwastraff a dylai'r Swyddogion Cynllunio sicrhau fod lle addas ar gael i storio biniau.**

C18/0546/11/LL Newid defnydd y llawr isaf a'r llawr gwaelod o siop wag i fwty / caffi / bar gan gynnwys rhan eistedd gysgodol y tu allan. 205-207 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad**

C18/0616/11/LL Cais ôl-weithredol i greu maes parcio. Pretty Chic, Ffordd Penchwintan, Bangor **Dim gwrthwynebiad**

C18/0600/11/LL Newid defnydd o siop (defnydd dosbarth A1) i swyddfa ar gyfer gwasanaeth cwnsela anfeddygol (defnydd dosbarth D1) ynghyd â newidiadau i ffenestr flaen y siop. 65 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad**

TUDALEN 16

Gofynnwyd i Glerc y Dref ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r rheolau o ran cymryd rhan, gwneud sylwadau a phleidleisio a oedd yn briodol i Aelodau Cyngor y Ddinas a oedd hefyd ar Bwyllgor Cynllunio Gwynedd.

66/18 MATERION PRIFYRDD

Dim

67/18 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

68/18 POLISI AR DDIOGELU GWYBODAETH A DATA

O ganlyniad i ddeddfwriaeth GDPR, esboniodd Clerc y Dref fod angen polisi newydd ar gyfer diogelu gwybodaeth a data. Byddai hwn yn cyd-fynd â'r polisiau eraill ynghylch data personol sy'n cael ei ddal a'i drafod gan Gyngor y Ddinas. Roedd newidiadau diweddar wedi cael eu gwneud i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd i hysbysiad preifatrwydd y wefan a gwybodaeth e-bost wrth gysylltu â'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: fod y Polisi Diogelu Gwybodaeth a Data fel y'i cyflwynwyd yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

69/18 ANFONEBAU I'W TALU

Adroddwyd fod anfonebau fel ag yn ôl y rhestr yn dod i gyfanswm o £13,936.84 wedi cael eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD: fod y taliadau'n cael eu nodi.

Gofynnwyd i Glerc y Dref wirio a oedd pob un o'r cemegolion a ddefnyddir gan Gyngor y Ddinas yn ddiogel ac wedi'u cymeradwyo gan y cyrff rheoleiddio priodol ac yn unol ag Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru.

70/18 PENODI PWYLLGOR BRYS AR GYFER MIS AWST

Pwyllgor Brys - **PENDERFYNWYD** penodi Pwyllgor i gynnwys y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio a Mwynderau a Chyllid ac Amcanion Cyffredinol ac Aelod Hŷn y Cyngor i ystyried unrhyw faterion brys a allai godi yn ystod mis Awst ac i roi Hawl i Weithredu i'r Pwyllgor Brys hwnnw ar ran y Cyngor ar unrhyw fater o'r fath.

71/18 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod.

SEFYLLFA ARIANNOL A CHYFREITHIOL Y CYNGOR A DIWEDDARIAD AR Y PIER

Adroddodd Clerc y Dref fanylion materion ariannol a chyfreithiol cyfrinachol a oedd ar y gweill ar hyn o bryd. Rhoddodd hefyd fanylion y broses dendro ddiweddaraf o ran contract y Pier yr oedd Cyngor y Ddinas ar fin ei ddechrau a'r canlyniad boddhaol a gafwyd.

Cafwyd sylwadau gan Aelodau ar y gwahanol faterion a amlinellwyd a buont yn ystyried y ffyrdd o weithredu a awgrymwyd.

PENDERFYNWYD: cyfarwyddo Clerc y Dref i symud ymlaen fel y trafodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm